**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Cynigion deddfwriaethol drafft ynghylch cronfeydd strwythurol yr UE ar gyfer 2014 - 2020

Chwefror 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Menter a Busnes
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8153
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: Pwyllgor.Menter@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Menter a Busnes

# Cynigion deddfwriaethol drafft ynghylch cronfeydd strwythurol yr UE ar gyfer 2014 - 2020

Chwefror 2012

**Y Pwyllgor Menter a Busnes**
Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda'r cylch gwaith o archwilio deddfwriaeth ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddu a'i pholisi, gan gwmpasu datblygu economaidd; trafnidiaeth a seilwaith; cyflogaeth; addysg uwch a sgiliau; ac ymchwil a datblygu, gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth.

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Nick Ramsay (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Mynwy



**Byron Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



**Keith Davies**
Llafur Cymru
Llanelli



**Julie James**
Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe



**Alun Ffred Jones**
Plaid Cymru
Arfon



**Eluned Parrott**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



**David Rees**
Llafur Cymru
Aberavon



**Ken Skates**
Llafur Cymru
De Clwyd



**Joyce Watson**
Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



**Leanne Wood**
Plaid Cymru
Canol De Cymru

# Cynigion Deddfwriaethol Drafft ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-20:

## Casgliadau ac argymhellion Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. Mae'r Pwyllgor Menter a Busnes wedi ystyried cynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-20, gyda'r nod o wneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ynghylch yr hyn y dylai ei flaenoriaethu wrth geisio llunio safbwynt Llywodraeth y DU yng Nghyngor y Gweinidogion. Rydym hefyd yn ceisio dylanwadu ar drafodaethau am y cynigion deddfwriaethol drafft drwy Aelodau Cymru yn Senedd Ewrop.

2. Ar hyn o bryd, nid ydym yn bwriadu adrodd ar y paratoadau yng Nghymru i roi'r rownd nesaf o raglenni ariannu ar waith, er bod hwn yn fater allweddol y gallem graffu arno maes o law.

3. Yn ystod yr ymchwiliad byr hwn, bu i ni siarad â swyddogion o Gyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd ar Gyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant a'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar Bolisi Rhanbarthol (DG Regio); Aelodau Cymru yn Senedd Ewrop; cynrychiolwyr allweddol o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol yng Nghymru – Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru; a'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd. Daeth tystiolaeth i law hefyd gan chwe sefydliad arall.

4. Mae ein casgliadau a'n hargymhellion wedi'u nodi isod.

### Sylwadau cyffredinol

5. Ar y cyfan, roedd tystion ein hymchwiliad at ei gilydd yn fodlon â chynigion deddfwriaethol drafft y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n ceisio:

- creu fframwaith strategol cadarnach ar gyfer cyfnod rhaglennu nesaf y Cronfeydd Strwythurol, gan ganolbwyntio ar gyflawni amcanion cyffredinol strategaeth Ewrop 2020 ar gyfer "twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol";

- symud ffocws y camau i roi'r Cronfeydd Strwythurol ar waith er mwyn canolbwyntio ar gyflawni deilliannau a chanlyniadau buddiol, hirdymor i ddinasyddion yn hytrach nag allbynnau;
- canolbwyntio adnoddau'n strategol;
- sicrhau mwy o gydlyniant a symlrwydd ar draws y gwahanol gronfeydd.

6. Rydym yn credu bod y cynigion deddfwriaethol drafft yn darparu fframwaith strategol cadarnhaol ar gyfer buddsoddiad economaidd yng Nghymru yn 2014-20, yn enwedig y pwyslais cadarnach ar berfformiad a chanlyniadau, y camau i symleiddio'r rheolau cymhwyster, y camau i integreiddio gweithgarwch ar draws y ffrydiau ariannu, y camau i gryfhau partneriaethau a'r cyfle i'r gymuned arwain datblygiadau lleol.

**Felly, rydym yn llongyfarch y Comisiwn Ewropeaidd ar ei gynigion drafft ac yn annog Llywodraeth Cymru i'w cefnogi a'u diogelu rhag cael eu diwygio'n sylweddol yn sgil trafodaethau ar lefel yr UE – ond yn amodol ar y materion a godir ym mharagraffau 8 i 25 isod.**

7. Yn gyffredinol, credir y bydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn parhau i fod yn gymwys i gael statws Rhanbarth Llai Datblygedig ac y bydd Dwyrain Cymru'n gymwys i gael cymorth Rhanbarth Mwy Ffyniannus yn rownd raglennu nesaf y Cronfeydd Strwythurol. Roedd sector addysg uwch Cymru'n mynnu y dylid defnyddio'r rownd nesaf o Gyllid Strwythurol i gefnogi newid cymdeithasol ac economaidd hirdymor a thrawsnewidiol yng Nghymru, gan symud tuag at economi uchel ei gwerth sy'n seiliedig ar wybodaeth. Roedd yn dadlau bod blaenoriaethu ymchwil a datblygu, cyfnewid gwybodaeth ac arloesi, a meithrin synergedd rhwng Cronfeydd Strwythurol yr UE a chyllid ymchwil yr UE (Horizon 2020) yn allweddol i'r symudiad hwnnw tuag at drawsnewid economaidd. Cafodd manteision y dull hwn eu cyfiawnhau yn nhermau annog mewnfuddsoddiad, helpu i ddenu a chadw 'cwmnïau angori' a helpu i fynd i'r afael â diweithdra ac anghydbwysedd cymdeithasol/incwm ar draws Cymru. Bu i'r Dirprwy Weinidog gytuno'n fras â'r ddadl hon.

8. Rydym yn cefnogi cynnig y Comisiwn Ewropeaidd am i ranbarthau lunio strategaethau arloesi rhanbarthol yn seiliedig ar "arbenigedd deallus" fel amod i gael mynediad at y Cronfeydd Strwythurol. Mae Cymru'n paratoi'r tir o ran Strategaeth Wyddoniaeth ddrafft Cymru a strategaeth addysg uwch Llywodraeth Cymru.

**Rydym yn annog Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â'r sectorau addysg uwch a busnes, i lunio strategaeth arloesi i Gymru sy'n nodi sut y gellir trawsnewid economi Cymru drwy flaenoriaethu buddsoddiad mewn sgiliau, ymchwil a datblygiadau technolegol, gan gynnwys technolegau adnewyddadwy, a sut y gall y buddsoddiadau hyn greu cadwyni cyflenwi lleol bywiog i'w cefnogi. Rydym hefyd yn argymell y dylai'r strategaeth gael ei hadolygu gan gymheiriaid a'i meincnodi yn erbyn arferion gorau rhyngwladol.**

9. Bu i sector addysg uwch Cymru hefyd ddadlau'r achos dros gydweddu cadarnach rhwng rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yng Nghymru yn y dyfodol a rhaglen Horizon 2020, sef Fframwaith Rhaglenni Ymchwil yr UE ar gyfer 2014-2020 – awgrym y bu i'r Dirprwy Weinidog gytuno ag ef. Yn arbennig, bu i'r sector addysg uwch ddadlau y dylid defnyddio rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol i ddatblygu capasiti ymchwil gyda golwg hirdymor ar wella cystadleurwydd rhyngwladol ymchwil academaidd Cymru. Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei blaenoriaethau ar gyfer rownd nesaf Cronfeydd Strwythurol yr UE yn cydweddu â blaenoriaethau strategaeth Horizon 2020 yr UE i feithrin mwy o gapasiti o ran blaenoriaethau ymchwil a datblygu'r sector addysg uwch, ac i ddenu "sêr" ymchwil i Gymru. Rydym yn argymell ymhellach y dylai Llywodraeth Cymru gyfrannu at y trafodaethau am gynigion Horizon 2020 i helpu i sicrhau'r budd mwyaf posib i Gymru.

**Meysydd sy'n peri pryder**

10. Mae nifer o feysydd lle'r ydym yn credu y dylai Llywodraethau Cymru a'r DU geisio newidiadau i'r cynigion drafft neu geisio sicrwydd y bydd buddiannau Cymru'n cael eu diogelu.

***Cyllideb yr UE a'r dyraniad i'r Rhanbarthau***

11. Gallai'r drafodaeth ehangach am Gyllideb yr UE ac argyfwng Ardal yr Ewro effeithio ar y cyllid a fydd ar gael ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol ac, felly, ar y cyllid a allai ddod i Gymru. Mae Llywodraeth y DU wedi mynegi'r farn y dylid lleihau cyllideb yr UE, yn enwedig yn yr Aelod-wladwriaethau cyfoethocaf, lle mai'i nod yw dileu'r Cronfeydd Strwythurol yn llwyr. Ar hyn o bryd, mae Cymru'n cael tua €2 biliwn o'r Cronfeydd Strwythurol presennol. Mae cynigion newydd y Comisiwn, i raddau helaeth, yn darparu fframwaith strategol cyffredinol ac offer y

byddai modd eu defnyddio i gyflawni amcanion strategol Cymru, pe bai digon o adnoddau'n cael eu darparu ar lefel yr UE ac ar lefel genedlaethol i roi'r rhaglenni newydd a rhaglenni cysylltiedig ar waith.

**Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i amddiffyn dull arfaethedig y Comisiwn Ewropeaidd o gategoreiddio rhanbarthau; argaeledd y Cronfeydd Strwythurol i'r rhanbarthau tlotaf, beth bynnag fo Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yr Aelod-wladwriaeth; argaeledd cyllid trawswladol i'r rhanbarthau sy'n deillio o'r cyllid Cydgyfeirio; a chyllideb ddigonol i roi blaenoriaethau Ewrop 2020 ar waith.**

*Contractau Partneriaeth*

12. Byddai cynigion y Comisiwn Ewropeaidd yn sefydlu strwythur newydd – Contract Partneriaeth – rhwng y Comisiwn a phob Aelod-wladwriaeth. Byddai'n amlinellu'r trefniadau i sicrhau cydweddiad â strategaeth Ewrop 2020, gan gynnwys gofyniad am i'r Rhaglenni Gweithredol ganolbwyntio ar gyflawni camau gweithredu y cytunir arnynt yn Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol blynyddol Ewrop 2020. Rydym yn credu ei bod yn bwysig bod y Rhaglenni Gweithredol ar gyfer pob un o wahanol raglenni'r UE yng Nghymru'n ateb gofynion y rhanbarthau hynny a'u bod yn sylfaen i'r cyfeiriad strategol a bennir yng Nghontract Partneriaeth y DU, yn hytrach nag annog unrhyw gamau tuag at ganoli mwy o reolaeth ar lefel y DU. Rydym hefyd yn credu y dylai'r trydydd sector ymgysylltu'n llwyr â threfniadau'r Contract Partneriaeth ar lefel y DU.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, gan ymgynghori a'i phartneriaid, lunio pennod benodol am Gymru yng Nghontract Partneriaeth y DU â'r Comisiwn Ewropeaidd sy'n nodi blaenoriaethau ac anghenion Cymru.**

*Amodoldebau a dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau*

13. Yn ei memorandwm esboniadol am Gronfeydd Strwythurol yr UE, dywedodd Llywodraeth y DU na fydd amodoldebau macro-economaidd (gohirio cronfeydd i ranbarthau mewn Aelod-wladwriaethau sy'n derbyn cymorth o gronfa achub yr UE ac nad ydynt yn ymateb yn ddigonol i argymhellion yr UE) yn berthnasol i'r DU, sy'n golygu, felly, na fyddant yn effeithio ar Gymru. Pan fu i ni ofyn i swyddogion y Comisiwn gadarnhau'r ddealltwriaeth hon, nid oeddynt yn sicr.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio eglurhad ynghylch a fydd yr amodoldebau macro-economaidd yn berthnasol i'r DU, ac os byddant, y dylai geisio newid y cynigion i ddileu'r bygythiad posib y gallai Cymru golli cyllid yn y dyfodol oherwydd methiant ar lefel y DU i gydymffurfio â'r amodoldebau macro-economaidd hynny.**

14. Roedd swyddogion DG Regio yn credu y byddai symud o ddull mewnbwn/allbwn o reoli a gweithredu'r Cronfeydd Strwythurol at ddull sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau a chanlyniadau'n "esblygiad" yn hytrach na "chwyldro" i Gymru. Rydym yn cefnogi dull newydd y Comisiwn, ond nid ydym yn glir ynghylch pa mor wahanol y bydd y fframwaith perfformiad newydd i gofnodi canlyniadau yn edrych. Ymhellach, hoffem gael eglurhad ynghylch sut y byddai fframwaith monitro a gwerthuso mwy cymhleth yn cael ei ariannu.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio eglurhad ar ddisgwyliadau'r Comisiwn o ran fframwaith perfformiad a fyddai'n galluogi noddwyr prosiectau ac awdurdodau rheoli i fesur ac i werthuso canlyniadau yn hytrach nag allbynnau. Rydym hefyd yn cefnogi'r alwad gan sector addysg uwch Cymru y dylai'r fframwaith perfformiad gynnwys dangosyddion sy'n gallu mesur effeithiau a chanlyniadau, fel capasiti ymchwil ac arloesedd.**

15. Roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyngor Sir Powys yn galw am eglurhad ar fecanwaith y gronfa berfformiad arfaethedig, yn enwedig yr effaith bosib y gallai cronfa o'r fath ei chael ar y lefel gyflenwi leol. Mae'r gronfa berfformiad yn cyfateb i bump y cant o'r dyraniad cyfan i bob Fframwaith Strategol Cyffredin ac Aelod-wladwriaeth, ond dadleuwyd bod y rheoliad yn amwys ynghylch a fyddai'n cael ei gweithredu ar lefel y DU neu ar lefel rhaglen, a sut y byddai'n cael ei rheoli yn y DU. Er enghraifft, os na chaiff arian ei ddyrannu, nid yw'n glir a fyddai'n dychwelyd i Gyllideb yr UE, neu a fyddai'n parhau yng nghyllideb y Polisi Cydlyniant ac yn cael ei ailddosbarthu i Aelod-wladwriaethau eraill lle mae'r rhaglenni wedi perfformio'n dda.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio eglurhad ar effaith bosib mecanwaith y gronfa berfformiad arfaethedig.**

## *Canolbwyntio thematig*

16. Mae cynigion y Comisiwn wedi'u hoelio ar un ar ddeg o amcanion thematig ac ar ganolbwyntio cyllid ar nifer gyfyngedig o flaenoriaethau buddsoddi o fewn yr amcanion hynny. Bydd y Rhaglenni Gweithredol yn pennu trothwyon gofynnol ar gyfer gwariant ar nifer o'r blaenoriaethau craidd a byddant yn ceisio mynd ati'n fwy strategol i nodi lle mae adnoddau'n cael eu canolbwyntio, yn hytrach na thaenu adnoddau'n denau dros ystod ehangach o sectorau a meysydd. Rydym yn nodi pryder Llywodraeth Cymru y gallai cynigion drafft y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer canolbwyntio thematig a neilltuo cyllid fod yn "rhy rhagnodol", ac mai'r awdurdod rheoli, ac nid y Comisiwn Ewropeaidd, ddylai benderfynu faint o wariant i'w ddyrannu i'r themâu a nodwyd. Eto i gyd, rydym hefyd yn nodi i'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol ar Gyflogaeth ddweud bod rhaglenni Cymru eisoes yn bodloni'r trothwyon gofynnol a bennwyd yn y cynigion drafft.

17. Yn ein barn ni, os yw Cymru eisoes yn bodloni'r trothwyon gofynnol ar gyfer canolbwyntio thematig heb ddatblygu economi ddeallus a chynaliadwy, efallai bod angen parhau â'r trothwyon hynny neu fynd tu hwnt iddynt hyd yn oed.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflawni asesiad trylwyr o effaith cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer trothwyon canolbwyntio thematig i weld sut y byddent yn effeithio ar lefelau gwariant yng Nghymru.**

## *Offerynnau i gefnogi datblygu integredig*

18. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi y byddai'n hoffi gweld strategaethau datblygu o dan arweiniad cymunedol yn cael eu datblygu drwy ddull sy'n seiliedig ar sawl cronfa, gan integreiddio, er enghraifft, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF), Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) ac, o bosib, y gronfa datblygu gwledig a physgodfeydd. Rydym yn croesawu'r dull ategol ac atgyfnerthol hwn a ddylai arwain at symleiddio'r gwaith o reoli a gweithredu'r cronfeydd ar lawr gwlad, yn ogystal â gwella proffil a pherchenogaeth y rhaglenni newydd yn lleol.

19. O roi'r cronfeydd hyn ar waith mewn ffordd integredig, rydym yn disgwyl y bydd yn ysgafnhau'r baich gweinyddol ar fuddiolwyr ar lawr gwlad.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio eglurhad ynghylch sut y byddai'r dull integreiddio'n gweithio yn nhermau cymhwyso gwahanol gyfraddau ymyrryd y gwahanol gronfeydd i'r camau sy'n cael eu cefnogi.**

20. Mae'r rheoliadau drafft yn cyflwyno "offeryn" newydd dewisol – Cynlluniau Gweithredu ar y Cyd – y gellir eu sefydlu o fewn Rhaglenni Gweithredol. Mae hwn yn ddull arloesol ac mae gennym ddiddordeb mewn gweld sut y byddai modd ei ddefnyddio'n ymarferol mewn rhaglenni yn y dyfodol, a hynny fel mesur i symleiddio'r gwaith o reoli prosiectau ac fel dull cyflenwi sy'n arwain at fwy o waith partneriaeth ar lefel ranbarthol rhwng gwahanol awdurdodau lleol.

21. Rydym hefyd yn croesawu'r eglurder ychwanegol a geir yn y rheoliadau drafft o ran offerynnau peiriannu ariannol, ac yn nodi bod Cymru'n defnyddio offerynnau o'r fath yn ystod cyfnod rhaglennu cyfredol 2007-2013. Mae Pwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol yn pwyso a mesur y materion hyn fel rhan o'i ymchwiliad i effeithiolrwydd Cronfeydd Strwythurol Ewrop yng Nghymru.

**Canolbwyntio ar gefnogi Datblygu Trefol Cynaliadwy**

22. Mae'r Rheoliad Darpariaethau Cyffredin drafft yn cyfeirio at neilltuo pump y cant o'r cyllid ar lefel yr Aelod-wladwriaeth i gefnogi camau integredig ar gyfer datblygu trefol cynaliadwy. Nid yw'n eglur, ond rydym yn tybio y bydd penderfyniadau ynghylch yr arian a neilltuir yn cael eu gwneud ar lefel Aelod-wladwriaeth (y DU) yn hytrach nag ar lefel Rhaglen Weithredol, sy'n golygu y gallai Cymru beidio â chael ei chyfran deg o'r dyraniad.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru negodi cymaint o hyblygrwydd â phosib o ran diffinio "ardaloedd trefol" a sicrhau mai'r awdurdodau rheoli, yn hytrach na'r Aelod-wladwriaethau, sy'n cyfarwyddo sut a ble i wario'r cyllid o bump y cant ar gyfer datblygu trefol cynaliadwy.**

23. O gofio ein bod wedi paratoi adroddiad diweddar am adfywio canol trefi, hoffem weld yr adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi camau i adfywio canol trefi Cymru. Rydym hefyd am weld Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r cyllid hwn ochr yn ochr â'r dull rhanbarth dinas sy'n dod i'r amlwg o ran datblygu economaidd.

24. Rydym yn cefnogi dadl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai modd defnyddio cronfeydd yr UE i fuddsoddi cymaint â phosib mewn seilwaith. Rydym yn sylweddoli bod Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi gwrthod awgrymiadau y dylid defnyddio Cronfeydd Strwythurol yr UE yn y dyfodol i gefnogi prosiectau trydanu'r rheilffyrdd yng Nghymru ar y sail mai Llywodraeth y DU ddylai ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwnnw. Tynnwyd ein sylw hefyd at Erthygl 3 o Reoliad drafft yr ERDF, sy'n datgan "mewn rhanbarthau mwy datblygedig, na chaniateir i'r ERDF gefnogi buddsoddiadau mewn seilwaith sy'n darparu gwasanaethau sylfaenol i ddinasyddion ym meysydd yr amgylchedd, trafnidiaeth a TGCh".

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru geisio gwneud y gorau o botensial a hyblygrwydd Cyllid Strwythurol er budd prosiectau seilwaith cyfalaf yng Nghymru.**

### *Dadlau achos Cymru*

I sicrhau bod pryderon ac anghenion Cymru'n cael sylw yn ystod y trafodaethau dros y misoedd nesaf, **rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau allweddol ar lefel y DU.**

**Rydym hefyd yn cymeradwyo camau'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd i sicrhau bod llais Cymru'n cael ei glywed yn Senedd Ewrop ac yng Nghyngor Materion Cyffredinol Ewrop.**

**Ymhellach, rydym yn llwyr gefnogi dull tîm Cymru o fynd i'r afael â thrafodaethau a negodiadau ar lefel y DU a'r UE sy'n ymgysylltu'n llwyr â'r sector addysg uwch, y sector preifat a'r sector gwirfoddol.**

25. Yn olaf, rydym yn sylweddoli y bydd y trafod a'r negodi ynghylch y cynigion deddfwriaethol drafft yn parhau dros y misoedd nesaf. Felly, rydym yn croesawu awgrym y Dirprwy Weinidog ei fod yn rhoi adroddiad arall i'n Pwyllgor er mwyn i ni barhau i graffu ar y mater pwysig iawn hwn.

### Atodiad

26. Yn ystod yr ymchwiliad hwn, cawsom ein cyfeirio hefyd at gynigion y Comisiwn Ewropeaidd o ran Cyfleuster Cysylltu Ewrop, sydd ar wahân i Gronfeydd Strwythurol yr UE, ac a fyddai'n darparu cymorth

ar gyfer tri Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd – trafnidiaeth, ynni a thelathrebu/ digidol. Cynigiwyd cyllideb o €40 biliwn ac mae rhestr o'r prosiectau a nodwyd ymlaen llaw yn cynnwys uwchraddio rheilffordd Abertawe i Lundain fel rhan o goridor Dulyn-Llundain-Paris-Brwsel. Nid yw'r cynigion yn enwi trydanu'r rheilffordd, ond rydym yn tybio y gallai hyn syrthio o fewn cwmpas cyllid Cyfleuster Cysylltu Ewrop.

**Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU, ymchwilio i gyllid er mwyn trydanu rheilffordd Abertawe i Gaerdydd drwy Gyfleuster Cysylltu Ewrop.**